



E-GYLCHLYTHYR Gaeaf 2017



Diweddariad TYR

Bu'r tri mis diwethaf yn gyfnod prysur a chyffrous i'r tîm TYR. Mae ein gwefan - www.sewales-ret.co.uk – bellach yn fyw! Rydym ni yn dal i ddatblygu ac ychwanegu at y cynnwys, ond rydym ni'n gobeithio ei bod eisoes yn adnodd defnyddiol ar gyfer pob peth sy'n ymwneud â Chyllid Ewropeaidd a Deddwyrain Cymru.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r panel Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd i brofi prosiectau UE newydd yn rhanbarthol a chefnogi ein tri rhwydwaith CGE a Thasglu'r Cymoedd. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda WEFO i hybu ymrwymiad a lefelau gwario ym mhob rhaglen.

Ein blaenoriaeth o hyd yw annog mwy fyth o gydweithio a chydlynid ledled y rhanbarth. Cynaliasom seminar briffio ranbarthol ar gyfer pob prosiect CGE sy'n gwasanaethu ledled y rhanbarth, gan gynnig fforwm er mwyn i arweinwyr prosiect sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau rhaglen/polisi ranbarthol allweddol. Cyfranasom hefyd at weithdy gyda WEFO a phrosiectau Busnes Cymru, a byddwn yn dilyn hynny gyda digwyddiad ranbarthol i randdeiliaid, ddechrau 2018. Fe wnaethom gydlyn trafodaeth ymlaen llaw, ar gyfer yr alwad ERDF P1 RD&I a ragwelir.

Rydym hefyd yn parhau i feithrin perthynas agos ag arweinwyr prosiect fel y gallwn ddeall yn well sut y mae eu prosiectau yn cyfrannu at flaenoriaethau'r rhanbarth; rhywbeth y byddwn yn bwriadu ei hyrwyddo drwy gydol y flwyddyn nesaf.



Yn olaf, ond yn bwysig er hynny - mae aelod newydd wedi ymuno â thîm TYR. Daeth Nicola Lewis atom ni ddechrau mis Rhagfyr, gan ddod â'i chyfoeth o brofiad yn y CDG a gweithio mewn partneriaeth, ac rydym yn falch iawn o'i chroesawu hi i'r tîm.

Yn y rhifyn hwn

Ffyniant i bawb All

Tudalen 2

Tasglu'r Cymoedd taskforce

Tudalen 2

Canllawiau Diweddaraf WEFO

Tudalen 2

YD&A galw am gynigion

Tudalen 3

Parc busnes newydd

Tudalen 3

Cynhadledd Brexit

Tudalen 4

Brexit a pholisi ranbarthol yn y dyfodol

Tudalen 4

Prifddinas-Ranbarth

Caerdydd

Tudalen 5

Galwadau Erasmus+

Tudalen 6

Arweinyddiaeth ION

Tudalen 6

Digwyddiad blynyddol WEFO

Tudalen 7

Digwyddiadau sydd ar ddod

Tudalen 7

Cyfnod cyllido CDG

Tudalen 8

Ffyniant i Bawb

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei pholisi newydd '[Ffyniant i Bawb](#)' - strategaeth genedlaethol i gyflawni ei phrif flaenoriaethau.

Mae'r strategaeth yn datblygu ar y Rhaglen Lywodraethu, [Symud Cymru Ymlaen](#), a'r nod yw hybu integreiddio a chydweithio ledled sector cyhoeddus Cymru, a darparu gwasanaethau gwell sy'n canolbwyntio ar bobl.

Mae'r strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth

a chymau gweithredu sy'n cwmpasu pob thema yn y Rhaglen Lywodraethu:

- Ffyniannus a Diogel
- Iach ac Egnïol
- Uchelgeisiol ac yn Dysgu
- Unedig a Chysylltiedig

Lansiwyd y cynllun manwl cyntaf ar gyfer cyflawni'r polisi ar 12 Rhagfyr. Mae'r [Cynllun Gweithredu Economaidd](#) yn cynnwys camau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith i dyfu'r economi a lleihau anghydraddoldeb, gan roi pŵer i'r holl ranbarthau yng Nghymru fod yn fwy cynhyrchol.

[...yn ôl i'r brig](#)

Tasglu'r Cymoedd

Ar ôl lansio 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' ym mis Gorffennaf, cynllun lefel uchel ar gyfer y cymoedd, y cam cyffrous nesaf fydd cydweithio â phobl mewn cymunedau, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol i gyflawni'r camau gweithredu a geir ynddo.

Tîm Tasglu'r Cymoedd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o gyflawni'r camau a amlinellir yn y Cynllun a byddant yn parhau i weithio ar draws Adrannau yn Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd [cynllun cyflawni](#) manylach ar 7 Tachwedd, yn amlinellu sut y caiff y blaenoriaethau eu rhoi ar waith, gyda phwy y byddwn ni'n gweithio i gyflawni ein hymrwymadau a sut y caiff y canlyniadau eu mesur.

Mae'r cynllun yn datblygu ar yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu drwy ein hymgylltiad â chymunedau, ac mae'n amlinellu blaenoriaethau allweddol sy'n ymwneud â chreu swyddi a darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl er mwyn eu gwneud nhw, gwella gwasanaethau cyhoeddus a 'fy

ngymuned' sy'n canolbwyntio ar les cymunedol a phersonol a sut i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol a diwylliant y Cymoedd.



Mae'r gweithlu yn croesawu unrhyw gyfle i ymgysylltu â fforymau lleol a gwasanaethau cyhoeddus a bydd y gweithlu yn ymgysylltu'n fwy yn ystod y misoedd nesaf. Bydd manylion ar gael ar y tudalennau gwe yn <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/?skip=1&lang=cy> neu cysylltwch drwy anfon e-bost at Dasglu'r Cymoedd yn TalkValleys@Gov.Wales

[...yn ôl i'r brig](#)

Canllawiau Diweddaraf WEFO

Mae'r canllawiau WEFO diwygiedig ar Asesu Cymhwysedd Cyfranogwr ar gael ar wefan WEFO erbyn hyn yn <http://gov.wales/docs/>

wefo/publications/171127-esf-articipant-eligibility-guidance-cy.pdf. Mae Atodiad A y fersiwn newydd yn cynnwys mwy o eglurhad o ran sut y gellir defnyddio gohebiaeth Credyd Cynhwysol fel tystiolaeth o gymhwysedd cyfranogwr.

[...yn ôl i'r brig](#)

YD&A – galw am gynigion

Mae £30 miliwn ar gael i gyflymu cydweithio o'r radd flaenaf mewn ymchwil ac arloesedd.

Mae WEFO wedi cadarnhau bod galw newydd am gynigion ymchwil ac arloesi. Bydd oddeutu £30 miliwn ar gael i gefnogi gweithgaredd

cydweithredol a gweithgaredd sy'n edrych tuag allan, yn seiliedig ar ragoriaeth sy'n bodoli eisoes mewn ymchwil a/neu arloesi, a all gyflawni enillion sylweddol i Gymru yn y tymor canolig a'r hirdymor.

Bydd yr arweiniad ar gyfer y galw ar gael ar [wefan WEFO](#), a'r dyddiad cau ar gyfer cynigion yw 28 Mawrth 2017.

[...yn ôl i'r brig](#)

Parc busnes newydd a gefnogir gan ERDF

Bydd £ 4.5 miliwn ychwanegol yn cael ei fuddsoddi yng Nglynebwy gan yr UE a Llywodraeth Cymru i ddenu entrepreneuriaid a busnesau newydd i'r ardal. Bydd Parc Busnes Lime Avenue yn darparu canolfan fusnes newydd ar safle The Works i gefnogi datblygiad busnesau mewn sectorau megis ymchwil a datblygu, peirianeg uwch-dechnoleg, fferyllo a diwydiannau creadigol.

Ynghyd ag arian cyfatebol gwerth £2 miliwn gan gyngor bwrdeistref sirol Blaenau Gwent, bydd arian ERDF yn cael ei ddefnyddio i ailddatblygu tua dwy erw o dir ar Lime Avenue, gan greu dros 20,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr busnes erbyn 2019, a fydd yn arwain at fentrau newydd ac yn creu swyddi.

Dywedodd Mark Drakeford, yr Ysgrifennydd dros Gyllid Llywodraeth Cymru: "Bydd y datblygiad hwn yng Nglynebwy yn helpu i ddenu busnesau ifanc, uchelgeisiol i'r ardal, ac mae ganddo botensial sylweddol i ehangu a chreu swyddi lleol o ansawdd da."

Dywedodd y Cyngorydd Dai Davies, aelod gweithredol Cyngor Blaenau Gwent dros Adfywio: "Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad heddiw gan yr Ysgrifennydd dros Gyllid i ariannu unedau busnes o ansawdd uchel, o fath hybrid, ar safle The Works, a gobeithiwn y bydd hyn yn creu menter a swyddi newydd ym Mlaenau Gwent "

Mae'r datblygiad yn Lime Avenue - ynghyd â buddsoddiad arall gan yr UE a Llywodraeth Cymru yng Nglynebwy, megis Parth Dysgu Blaenau Gwent a'r Parc Technoleg Awtomatig gwerth £100 miliwn - yn cyfrannu at amcanion twf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac yn cefnogi gweledigaeth Tasglu'r Cymoedd a'i gynllun Ein Cymoedd, Ein Dyfodol.



[...yn ôl i'r brig](#)

Cynhadledd Brexit

Ar 16 Tachwedd, cynhaliodd Caerdydd a Llywodraeth Cymru ddigwyddiad "Cydwethio Ewropeaidd ar ôl Brexit" a drefnwyd gan Gynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol (CMPR).

Roedd y siaradwyr yn cynnwys y Prif Weinidog Carwyn Jones ac Ysgrifennydd y Cabinet, Mark Drakeford, yn ogystal â chynrychiolwyr etholedig o un ar ddeg rhanbarth arall.

Yn ei araith gyweirnod, pwysleisiodd y Prif Weinidog yn gryf, er nad yw Llywodraeth Cymru yn ceisio dadwneud canlyniad pleidlais y refferendwm, "**Mae Cymru'n parhau i fod yn wlad agored, groesawgar ar lwyfan y byd, ac ni fydd Brexit yn newid hynny**".



Mynegwyd pryder cyffredinol ynghylch yr effeithiau andwyol posibl y bydd Brexit yn eu hachosi y tu hwnt i Gymru a'r DU, a nododd y cynrychiolwyr nifer o enghreifftiau o'r perthnasoedd gweithio da gyda chwmnïau a sefydliadau yng Nghymru y maen nhw'n dibynnu arnynt. Yn unol â hynny, cadarnhaodd pawb a oedd yn bresennol awydd cryf i barhau i gryfhau'r cysylltiadau â Chymru ar ôl Brexit.



Daeth y gynhadledd i ben drwy lofnodi "Datganiad Caerdydd" sy'n galw am barhau i gynnal perthynas a chydweithrediad cryf rhwng y DU a gwledydd a rhanbarthau ledled Ewrop ar ôl Brexit.


Mae manylion llawn y gynhadledd ar gael ar wefan [CMPR](#).

[...yn ôl i'r brig](#)

Brexit a pholisi rhanbarthol yn y dyfodol

Lansiwyd papur polisi newydd Llywodraeth Cymru '[Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit](#)' ddydd lau 14 Rhagfyr gan nodi dechrau dialog i helpu i lunio ymagwedd 'gwnaed yng Nghymru' ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu yn y Flwyddyn Newydd a chynhelir y digwyddiad ar gyfer de Cymru ddydd lau, 25 Ionawr 2018 (Canolfan Gynadleddau Nantgarw, Caerdydd). I gael rhagor o wybodaeth, ac i gadw lle, anfonwch e-bost i wefo-communications@gov.wales



Hoffai WEFO (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) glywed eich barn ar y cynigion a nodir yn y papur, a'r cam cyntaf yw llenwi [arolwg byr ar-lein](#).

Anfonwch ymatebion manwl i'r ddogfen '[Cwestiynau Ymgysylltu](#)' drwy e-bost i RegionalInvestmentafterBrexit@gov.wales erbyn y dyddiad cau, sef **23 Mawrth 2018**.

[...yn ôl i'r brig](#)

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn penodi Cadeirydd cyntaf y Bartneriaeth Twf Economaid Rhanbarthol

Mae tîm Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) wedi cyhoeddi penodiad Frank Holmes, partner sylfaenol yn Gambit Corporate Finance, fel Cadeirydd cyntaf y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol (REGP).

Bydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol, sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd, yn cynghori Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn uniongyrchol, ac yn gyfrifol am adolygu'r Strategaeth Economaidd Rhanbarthol ac yn cynghori ar gynigion Buddsoddi'r Fargen Ddinesig. Bydd ganddi hefyd swyddogaeth eirioli, gan hyrwyddo'r Rhanbarth fel cyfle buddsoddi a lleoliad ymwelwyr o'r radd flaenaf.

Mae gan Frank Holmes, a benodwyd ar ôl proses ymgeisio agored, gefndir eang mewn cymorth cynghorol strategol, ac mae ganddo brofiad helaeth o weithio â busnesau ym mhob ardal o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.



Mae'r ariannwr corfforaethol entrepreneuriaidd wedi bod yn gynghorydd blaenllaw ar nifer o brosiectau i godi arian, yng Nghymru a thramor, mewn amrywiaeth o sectorau, gan gynnwys: gofal iechyd; biodechnoleg; Technoleg Gwybodaeth; hyfforddiant; gweithgynhyrchu; rheoli gwastraff; manwerthu ar-lein; trafnidiaeth a hamdden. Enillodd gwobr Dealmaker y flwyddyn Insider Wales yn 2007, 2013 a 2017, sy'n golygu mai ef yw'r person cyntaf i gyflawni'r gamp deirgwaith.

Fel Cadeirydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol, bydd yn arwain y bartneriaeth, yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd, yn casglu barn rhanddeiliaid, ac yn cyfathrebu a chynrychioli argymhellion y bartneriaeth i Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ei dasg gyntaf fydd gweithio â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i benodi aelodau Bwrdd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol.

Dywedodd y Cadeirydd newydd: "Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn o gael y cyfle i gadeirio ac i arwain Bwrdd o aelodau sydd â disgyblaethau amrywiol ac i hyrwyddo'r Ddinas-Ranbarth, a chredaf fod honno'n her y gellid ei chyflawni ac yn estyniad boddhaus i'm gyrfa hyd yma."

Ar ôl penodi'r Cadeirydd, y cam nesaf yw penodi Aelodau'r Bwrdd ar gyfer y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol. Bydd y Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd a rhwng 6 a 12 o aelodau. Cyhoeddwyd hysbyseb yn gofyn am geisiadau i'r Bwrdd ar [wefan](#) Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 30 Hydref. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau wedi'i ymestyn i ddydd Gwener, 24 Tachwedd, i ganiatáu i Gadeirydd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol gymryd rhan wrth ffurfio Bwrdd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol.

Yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd, fe wnaeth Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ethol ei is-gadeiryddion yn ffurfiol, sef y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd, a'r Cynghorydd Peter Fox, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy, fel y cynrychiolwyr ar ran Llywodraeth Leol, ar Fwrdd y Bartneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol.

Yn fuan, bydd cynrychiolwyr etholedig o fusnesau'r sector preifat, cyrff cyflogaion, sefydliadau addysg a sgiliau, a'r trydydd sector yn ymuno â nhw.

[...yn ôl i'r brig](#)

Galwadau Erasmus+2018

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi galwad Erasmus+ 2018 am gynigion, a gellir dod o hyd i'r manylion amdanynt, gan gynnwys dyddiadau cau, [yma](#).

Mae'r "Galw am Gynigion" yn ddogfen drosolwg sy'n cynnwys y dyddiadau cau ar gyfer 2018, ac mae "Canllawiau'r Rhaglen" yn cynnwys gwybodaeth fanwl am reolau'r prosiect, lefelau cyllido a phrosesau ymgeisio

ar gyfer cyllid Erasmus+.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan bod y DU wedi ymrwmo i gyfranogi'n llawn yn y rhaglen Erasmus + hyd y byddwn ni'n gadael yr UE. Bydd yn tanysgrifio ceisiadau llwyddiannus ar gyfer Erasmus + a gyflwynwyd tra bod y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth, hyd yn oed os na chânt eu cymeradwyo tan ar ôl i ni adael, a/neu fod y taliadau yn parhau y tu hwnt i'r man gadael.

[...yn ôl i'r brig](#)

Arweinyddiaeth ION

Mae mwy na 1,000 o gyfarwyddwyr, rheolwyr a pherchnogion busnes, eisoes wedi elwa ar raglen Arweinyddiaeth ION a'i rhagflaenydd LEAD Cymru. O dan arweiniad Prifysgol Abertawe a chefnogaeth ariannol trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, mae cyfranogwyr y rhaglenni wedi creu cynnydd o 26% ar gyfartaledd o ran trosiant eu busnes ac wedi ychwanegu dros £52 miliwn i economi Cymru.

Mae Arweinyddiaeth ION yn cefnogi entrepreneuriaid a darpar arweinwyr i ddatblygu sgiliau o safon uchel trwy raglenni arweinyddiaeth a dargedir, sydd â'r nod o gynyddu cynhyrchiant yn y gweithle gan hefyd ddatblygu mentrau cynaliadwy, sy'n gwneud elw.

Mae'r rhaglen ION yn seiliedig ar ddysgu ymarferol ac arbrofol gyda grŵp o gymheiriaid dibynadwy. Mae cyfranogwyr hefyd yn gallu arbrofi gyda gwahanol ddulliau o arweinyddiaeth a dysgu sut i weithredu'r syniadau, y strategaethau a'r arferion gorau diweddaraf wrth gael HWYL A SBRI!



Roedd Mathew Dalziel, Rheolwr Masnachol ASW Property Services, yn Arweinydd ION ar raglen "Arwain Twf" yn 2017, a gynyddodd nifer arweinyddion ION / LEAD Cymru i dros 1,000 o arweinyddion! Dywedodd Matthew, "Roedd ION yn daith wych. Dwi wedi bod ar lawer o gyrsgiau hyfforddiant rheoli a chyrsgiau undydd lle nad ydych chi'n dysgu fawr o ddim newydd. Mae ION yn wahanol! Mae wedi rhoi'r hyder a'r ffocws i mi arwain yn effeithiol. Mae ION hefyd wedi dod â thîm rheoli uwch ASW at ei gilydd; rydym i gyd wedi cael y profiad o daith ION. Rydym bellach yn fwy effeithiol ac rydym ar yr un trywydd. Rydym ni'n rhoi'r hyn a ddysgwyd gennym ni ar waith ac yn rhoi o'n hamser i weithio 'ar' y busnes yn hytrach nag 'yn' y busnes!"

Roedd Anthony Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr ASW wedi bod ar raglen LEAD Cymru yn flaenorol yn 2015 a dywedodd; "Mae trosiant ASW wedi cynyddu gan dros 35% ers i mi wneud y cwrs!"

I gael mwy o wybodaeth ewch i <https://ionleadership.co.uk/> a dilynwch ION ar LinkedIn a Twitter [@IONLeadership](#).

[...back to top](#)

Digwyddiad blynyddol WEFO

Ar 30 Medi, cynhaliodd WEFO ei Ddigwyddiad Gwybodaeth 2017 Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 cyntaf.

Roedd y digwyddiad yn Stadiwm Liberty yn Abertawe, ac fe'i hgorwyd a'i gynnal gan Brif Weithredwr WEFO, Sioned Evans. Mark Drakeford AC a roddodd y brif araith, a phwysleisiodd fod gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb i sicrhau nad yw'r broses o adael yr UE yn niweidio hawliau unigolion na'r economi. Amlinellodd hefyd ofynion allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y trafodaethau pontio:

- Mynediad parhaus a dirwysr i'r Farchnad Sengl.
- Yr angen am ddull buddsoddi economaidd newydd yng Nghymru
- Mae cyfnod pontio cyn bod y trefniadau newydd ar waith yn hanfodol ar gyfer datblygu perthnasodd effeithiol

Bydd papur polisi rhanbarthol newydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn, a fydd yn amlinellu'r gofynion hyn ac yn galluogi trafodaethau pellach. Cynhelir digwyddiadau ymgynghori ym mis Ionawr 2018

Gwnaeth y digwyddiad hefyd gynnal gwobrau "60 mlynedd ESF" WEFO ar gyfer cyfranogwyr a phrosiectau unigol.

Yr enillwyr oedd:

Categori 1 (25 oed +):

Cyflawniad gorau gan unigolyn

- Adam – Skill Up Break Free (Prosiect Cronfa Cynhwysiant Gweithredol)
- Chantelle – Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth
- Owain – Gweithffyrdd+

Y Prosiect Gorau - Cronfa Cynhwysiant Gweithredol - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Categori 2 (11 i 24 oed):

Cyflawniad gorau gan unigolyn

- Christopher – Activ8 (Prosiect Cronfa Cynhwysiant Gweithredol)
- Olivia - Cymunedau am Waith
- Elliw – Trac

Y Prosiect Gorau - Trac 11-24 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Sir Ddinbych

Categori 3: Yr esiampl orau o ymgorffori themâu trawsbynciol mewn prosiect Ewropeaidd:

- Yr enillydd: GWLAD (Tyfu Gweithleoedd drwy Ddysgu a Datblygu) - Prifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant.
- Yn agos i'r brig: CUBRIC (Canolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd) - Prifysgol Caerdydd, Busnes Cymdeithasol Cymru - Canolfan Gydweithredol Cymru

LLONGYFARCHIADAU I BAWB!



Investing in people

European Social Fund



[...yn ôl i'r brig](#)

Digwyddiadau sydd ar ddod

- Digwyddiad ymgysylltu Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, dydd Iau 25 Ionawr
- Y dyddiad cau ar gyfer galwadau ERDF a RD&I, yw 28 Mawrth
- Cyfarfod Rhwydweithio CGE Blaenoriaeth 1 dydd Iau 8 Mawrth
- Cyfarfod Rhwydweithio CGE Blaenoriaeth 2 dydd Mercher 14 Mawrth
- Cyfarfod Rhwydweithio CGE Blaenoriaeth 3 dydd Iau 16 Ionawr

[...yn ôl i'r brig](#)

Cyfnodau ymgeisio ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Cynllun Cydweithio i Gynllunio

Coedwigaeth: y cyfnod ar gyfer datgan diddordeb yn agored nawr

Yn annog cynllunio ar gyfer creu coetir llydanddail a chonwydd, a chyfrannu at gyflawni amcanion Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP).

Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a

Chydweithio: agorwyd y cyfnod ymgeisio ar gyfer datgan diddordeb ar 5 Tachwedd 2017

Cymorth ar gyfer gweithgareddau cydweithio ym mhob rhan o'r sectorau amaeth, bwyd a choedwigaeth.

Grant Busnes i Ffermydd: bydd y cyfnod nesaf ar gyfer datgan diddordeb yn agor ar 2 Ionawr 2018

Pecyn cymorth grant yw'r Grant Busnes i Ffermydd (FBG), a gynlluniwyd i helpu ffermwyr yng Nghymru i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol.

Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau

Gwledig – Bwyd: agorwyd y cyfnod ar gyfer datgan diddordeb ar 29 Tachwedd 2017

Cynllun buddsoddiad cyfalaf yw'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig - BWYD (RBISF) i helpu prosiectau sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Mae'r cynllun yn agored i helpu cwmnïau prosesu a chynhyrchu bwyd a diod micro a bach, hen a newydd ledled Cymru.

...yn ôl i'r brig

...ac yn olaf...

*Nadolig Llawen i
chi gyd!*

...yn ôl i'r brig